


Datganiad GAD

2018



Ysgol Uwchradd Aberteifi

Cyd-destun

Arian grant yw'r Grant Amddifadu Disgyblion (GAD) i ysgolion sydd â disgyblion o gartrefi isel eu hincwm a sydd ar hyn o bryd yn derbyn prydiau bwyd am ddim a disgyblion sydd yn gyson yn derbyn gofal am fwy na chwech mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion wneud yn fawr o'r cyllid hwn i osod strategaethau a fydd yn achosi gwelliant cyflym i ddisgyblion sydd yn derbyn prydiau bwyd ysgol am ddim neu sydd yn LAC.

Fel ysgol rydyn ni wedi cytuno ar y 3 cham canlynol:

1. Adnabod grŵp darged o ddisgyblion, eu nodweddion ac anghenion dysgu;
2. Cynllunio ffyrdd o ymyrraeth i wneud y gorau o'r adnoddau;
3. Monitro a gwerthuso effaith yr adnoddau.

Yn 2018-19, cafwyd Ysgol Uwchradd Aberteifi £98,900 o GAD.

Yn Ysgol Uwchradd Aberteifi mae cynllun trwyadl, wedi ei gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Ceredigion ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a lleihau rhwystrau dysgu i ddisgyblion sydd yn gymwys am y cyllid hwn.

Yn Ysgol Uwchradd Aberteifi rydym yn sicrhau bod pob pwnc yn trefnu'u cwricwlwm yn fanwl fel bod y disgyblion yn eu gofal yn cael pob cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Fel rhan o'r broses mae athrawon yn cynllunio'n fanwl iawn ar gyfer anghenion disgyblion y mae ymchwil genedlaethol yn dangos eu bod nhw'n debyg o dangyflawni.

Yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ein prif egwyddor yw y dylai gwersi alluogi POB dysgwr i wneud cynnydd a chyrraedd ei l(l)awn botensial. Rydym yn gwybod bod addysgu da'n codi safonau grwpiau o ddisgyblion bregus ac fel ysgol, ein bwriad yw parhau i wella addysgu a dysgu.

Yn ogystal ag addysgu da, defnyddiwn gyllid ychwanegol i gynnal disgyblion y gallan nhw fod yn fregus ac yn debyg o dangyflawni.

Mae gan Ysgol Uwchradd Aberteifi ar hyn o bryd 17% o'i disgyblion yn derbyn cyllid GAD. Mae'r ysgol wedi datblygu system soffistigiedig i ddilyn ac asesu cynnydd disgyblion ac fel hyn gallwn sicrhau fod ymyrraeth yn digwydd i ddiwallu anghenion unigolion. Mae'r systemau yma'n cael eu gosod ar bob disgybl gan gynnwys y rhai hynny sydd yn derbyn prydiau bwyd ysgol am ddim, fel ein bod yn gallu adnabod mannau gwan o dangyflawni a thargedu'r ymyrraeth yn gywir a monitro'i effeithiau.

Os ydyw'n amlwg, er gwaethaf pob ymyrraeth, fod dal i fod angen cynhالياeth ac ymyrraeth, rheolir hyn yn ofalus gan ddefnyddio strategaethau sydd wedi eu profi'n fwyaf effeithiol.

Caiff y broses o adnabod disgyblion ar gyfer math penodol o ymyrraeth ei wneud trwy brofion cynnydd bob tymor. Mae athrawon, Penaethiaid Cyfadran a'r Tîm Rheoli Cynnydd yn cynnig awgrymiadau sut i gyflymu cynnydd ar unwaith, er mwyn mynd i'r afael â chynnydd sydd yn araf. Gwneir hyn trwy broses cynllun gweithredu fel y disgrifir ef yn Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

Trosolwg o brosiectau sydd yn defnyddio GAD

- Ymyrraeth mewn Llythrennedd a Rhifedd Cyfnodau Allweddol 3 a 4.
- Cefnogaeth i ddisgyblion i fynd ar deithiau addysgol a fydd yn effeithio'n bositif ar eu cynhwysiad a chyrhaeddiad.
- Tiwtora pwnc-benodol yn y pynciau craidd mewn grwpiau bach neu un-i-un tu allan i oriau ysgol.

- Adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion ar eu cynnydd, yn unol â'n polisi marcio ac asesu.
- Prynu offer cwricwlwm hanfodol i ddisgyblion (e.e. gwisg ysgol, cit Ymarfer Corff, deunydd ysgrifennu).
- Prynu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion (e.e. llyfrau gwaith, llyfrau canllawiau adolygu, pecynnau meddalwedd).
- Sesiynau allgyrsiol (e.e. gwersi cerddoriaeth peripatetig) wedi'u hariannu gan yr ysgol.
- Sesiynau datblygu sgiliau astudio gan sefydliadau allanol.
- Buddsoddi mewn GCSE Pod.
- Arian ychwanegol yn wythnosol i ddisgyblion ar gyfer prydau bwyd yn y ffreutur.
- Mireinio systemauolrhain data y disgyblion, dilyn eu cynnydd tuag at dargedau, a monitro effaith yr ymyrraeth, gan ddefnyddio 4Matrix.
- Cymorth gyda gwaith cartref a gwaith wedi'i golli i unigolion a grwpiau bach o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.
- Cefnogaeth Anogwr Dysgu.